www.kimkat.org – Gwefan Cymru a Chatalonia

21-02-2021

Cadair ap Mwydyn

Gan Hen Fyfyriwr

Y Geninen. 1900. Tudalennau 60-63

(Tafodiath Ardal Abertawe??)

Dùn Èideann
Doolish
Baile Átha Cliath
Aberystwyth
CYMRU
Caer-dydd
KERNOW
Truru
BREIZH
Naoned
Clarmont-
Ferrand
Lemòtges
Bordèu
Valença
OCCITANIA
Tolosa
Montpelhièr
Niça
Pau
Marselha
Perpinyà
Lleida
Barcelona
València
Palma
PAÏSOS CATALANS
8112

Aberaeron
Aberteifi
Llanbedr Pont Steffan
Llanymddyfri
Llanwrda
Caerfyrddin
Llanelli
Abertawe
Caerdydd
0 10 20 30
Cilomedrau
J4242

.....

CADAIR AP MWYDYN.

Golygfa—YSTAFELL DAU GYD-FYFYRIWR.

NED FFAGWR (*yn dysgu Groeg*): *Twpto, twpteis, twptei; twpteton, twpt*—

AP MWYDYN (*yn cyfansoddi ar gyfer Eisteddfod Bwch-y-cyrn*): Twptithe hefyd, Ffagwr. Pwy sy'n mynd i farddoni, a tithe a dy "*dwpto*," byth a hefyd. fel dyn yn swddanu? I ti bron mynd mor dwp a "*twpto*."

N. F.: Cera oddna, Ap Mwydyn. Pwy farddoni alli di neyd? I ti'n cynnyg ac yn cynnyg am ryw hen "gader â thwll" fach, os blwyddyn; ond wela' i ddim argol *daw* hi byth. Pryd ma dy *dro* di, bachan? Ond dyna, di ti ddim yn dod yn ddigon agos i weyd dy fod ti'n *ail ore*; ac iti'n gwbod fod pob un o'r chwech cynte yn cleimo cymint â hynny. Jaca'i làn, jaca'i làn. Fe dâl y ffordd yn well o lwer i ti i stico at beth mor sych a "*twpto*" nâ mynd i gystadlu gyda Gwilym Meudwy, a beirdd o safon!

AP M.: Mae o'r gore i ti, Ffagwr, weyd tho i am bido barddoni. I ti wedi treio dy ore—shwd ore ag ôdd e:—ac, yn wir, rôdd yn ffin gen i dy weld ti'n cownto dy fysedd i gâl dy fesur wyth a saith a grôt yn iawn. ac yn poeni am orie i wilo am eire fel "oawl" a "mawl," a "phanasen" ac "asen," i odli. Mi glywes rywun yn gweyd wrth stiwdent unwaith i fod e wedi spwylo colier da wrth fynd yn bregethwr; a fe fydde'n well i tithe, Ned Ffagwr. bido gneyd bardd gwâl o Ffagwr mor arddechog. Ond rwy i wedi sylwi ar y rheiny sy wedi ffili gneyd beirdd, ac wedi credu'u bod nhw'n dipyn o scolers, 'u bod nhw'n cisho perswado'u hunen a phawb erill ma rhyw hâff-cracs anwybodus yw'r beirdd i gyd.

N. F.: Dwy i ddim yn meddwl, ta beth, ma rhai anwybodus yw'r beirdd. Wy i 'n gweld ffugenwe cyd â mraich i gyd â nhw, a phishis o Latin, a Greek, a German uwchben 'u pryddeste nhw. Ma'n rhaid 'u bod nhw'n wybodus, achos 'dôs dim geiriaduron i weyd popeth i gâl.

AP M.: A pheth arall i ti: os na fydd y'n beirdd ni wedi câl llawer o ddiwylliant, ma nhw'n mynnu gweld tipyn o'r byd i neyd fyny am hynny.

N. F.: Eitha gwir, Ap: eitha gwir. A ma gyda ni hanes'u tithie nhw, sy wedi dod yn llyfre safonol.

AP M.: Os, ôs. A ma beirdd yn gallu gweld pethe na wêl pobol erill.

N. F.: Eitha gwir. Ond Ap, os iti'n mynd i gwpla'r pishin yna sy gent ti nawr, a'i neyd e gyd dy hunan, iti'n ffwl, a gweyd stori blaen tho ti. Nid felna *ma* cystadlu'r dyddie hyn. Gofyn i Waicyn Wyn am dy helpu di iddi gwpla fe, a gofyn i ryw frawd yn yr un winidogeth iddi ysgrifennu fe mas iti. Dyna fel ma nhw'n ennill cadire a chorone, y dyddie hyn, medde nhw.

AP M.: Fe gewn weld, Ned, os *joint companies* yw hi, ond de fe: a pheth da yw rhoi "help llaw" i frawd, onte? A ma'r apostol yn gweyd tho ni am ddwyn beichie'n gilydd, os wy'n cofio adnod y gyfillach yn iawn.

N. F.: Odi, odi: ma e'n gweyd rhywbeth felna yn yr hen gyfieithad, a wy inne yn i gefnogi fe.

AP M: Wel, os wyt ti'n i gefnogi fe. wy'n shiwr fod Paul yn falch—yn enwedig heddy, pan ma nhw'n gweyd nag ôdd e ddim mor shiwr o'i fater, wedi'r cyfan. Ond gad i ni fynd ati ddi eto Nawr, os ôs rhaid i ti weyd y "*twpto*" na, gwêd e'n ddhistaw. Mi â inne 'mlân mor ddhistaw a galla'i â'r gân o glod ma, hefyd. (Yn ddistaw): Ble 'rown i, hefyd O ie—

"Dyn uwchnaturiol, gwyrth i'r oesoedd oedd,
Dyn llawn o'r nef!" . . .

N. F.: *Etwpsa, etwpsas, etwpse.* Ma'n rhaid i fi'u dysgu nhw i gyd, er y mod i'n gwbod na ddwa'i ddim yn gamster arnyn nhw byth, a finne nawr yn—wel, *dros* bump-ar-hugen. Pam na fydde'n haddysg ni ar linelle gwell? Am yr help roith y tipyn Greek nâf fi i fi, mi allai heddy gâl y cwbl, a mwy o lawer, wedi 'i weyd mewn llyfre Sisneg gan *specialists*. Ond yw peth fel hyn yn ofnadw?

AP M. (*yn ail-adrodd, gan fethu gorphen y llinell*):

"Dyn llawn o'r nef, o'r nef" . . .

Gad dy stwr, bachan; gad i fi gâl gweld os galla'i gwpla'r lein 'ma—

"Dyn llawn o'r nef" . . .

N. F.: Bachan, bachan, dyna gôp i gwpla honna! Alle ti ddim i gweyd hi fel hyn?

"Dyn llawn o'r nef, ac uffern, yn eu tro."

Etwptomen, etwptou, etwpte.

[*Curo wrth y fenestr.*

Pwy sy na nawr, fachan? Wy'n ffili'n deg a diall fel ma'n ffenest ni'n dala. Ma'n câl i thapo a'i thapo, o wech o'r gloch soi'n ddiddeg, bob nos yn regilar! Cer i'r drws, Ap. [*Wedi iddo fynd*] Harri Gneyd Dim sy 'na nawr, wy'n shiwr. Pam no rosiff e gatre i neyd dim, yn lle dod ar hyd dai bechgyn erill, iddi helpu nhwnte i neyd dim. Ond dyna—ini gyd am argyhoeddi rhywrai ma'n ffordd ni o fyw sy ore.

[*Harri yn dod i fewn.*

Wel, Harri, shwd ma'r gwaith yn dod yn mlân, fachan? Weles i di 'riôd yn cwyno. I ti'n well na'r rhan fwya ohonnon ni fanna. Ma'n rhaid dy fod ti'n gallu gwitho'n gloi anghyffredin. Shwd i ti'n gneyd, Harri?

HARRI GNEYD DIM: Dim o dy *snaps* di, Ffagwr. Dyna lle i ti â dy Greek, a dy Greek yn ddigon i droi as stymog dyn, byth a hefyd.

N. F.: Pam na rosi di gatre, ynte, bachan? ne fynd i le sy'n taro dy stymog di'n well?

H. G. D.: Wel, mi weda'i tho ti, Ffagwr: ma gen i genhadaeth bwysig yn y lle ma. Wy i'n teimlo ma 'ngwaith i yn y lle ma yw cadw bechgyn o dy *short*

(delwedd 4513) (tudalen 60)

di rhag cyflawni hunan-laddiad. A dyna lle wy i'n mynd bob nos yn rownd i'r bechgyn wy'n weld welwa yn yr ysgol yn y dydd;—ag wyt ti ddim yn credu fod gen i waith pwysig? Ap, ma llwer o sôn y dyddie hyn am ddynon â neges gyda nhw, ag wy i'n credu fod dynon call y'n dyddie ni wedi ffindio neges i lwer dyn ar ol iddo fe farw; ag wrth gwrs, am bethe fel hyn ma'r dynon mwya'n câl 'u talu. Wel, w i'n teimlo cyn i fi farw fod neges gen i; ag os byddi di am nevd papyr i Gymmrodorion Llunden arna' i, dyna'r penawd i ti: "Neges Dyn Segur." Ond dyma rywrai'n dod i boeni'r Ffagwr eto.

[*Wil Pregethwr a Dai Gwitho'n Gynnar yn dod i fewn.*

Ap M.: Wel, boys, ddethoch chi o'r gymanfa? Shwd gymanfa gesoch chi?

Wil Pregethwr: Ardderchog, bachan.

Dai Gwitho'n Gynnar: *Strokes* ofnadwy, boys. Ma Wil ma yn i chapso 'i nawr. Stim shwd beth i neb sefyll làn ar i ol e. Fe nath iddi nhw i gyd sefyll ar 'u trâd, y ddô—do obrysur.

N. F. [*O'r neilldu*]: Pan rois e'r emyn mas, sposo.

D. G. G.: Fe bregethodd am dri chwarter awr solid.

Ap M.: Do fe, Wil? Os do fe, nôdd ishe clymu dy ben di'n dost. Pwy reswm sy miwn peth felna? A phwy waretêg ôdd i'r bachan ôdd ar dy ol di? A pheth arall, os credi di fi, 'dyw pobol ddim yn moin mwy nâ haner awr o bregeth man pella gan stiwdent.

D. G. G.: Sêt ti'n clywed pregeth Wil, nid dyna beth wedet ti, wy'n shiwr. Wil, gwêd gwpwl o dy strokes tho fe.

Ap M.: Well iti bido, Wil, ne fe gei di clywed nhw am y mish nesa yn eco yn yr ysgol bob dydd. I ti ddim yn cofio am y ferch ifanc wedi dod i'r gyfeillach "achos fod Mary wedi dod,"—fel ôdd y stori yn tyfu o ddydd i ddydd, nes iddi ddod yn "feehgyn ifenc ar y galeri, pam i chwi wedi dod 'ma heno—achos fod Mari yma?" Well i ti bido, Wil; stim sy'n well ne'n wâth nâ *strokes* i neyd *sport* ohonynw.

W. P: Weda'i ddim ohonni nhw, te. Ond nid y pregethu ôdd y peth, y ddô, boys Y sport geson ni yn y lle ôn ni'n aros ôdd y peth. Provoco'n gilydd, a thynnu'n pregethe'n gate, lle clywe'r hen ddyn a'r hen fenyw; a gweyd hen scetshis doniol am hen bregethwyr, heb ddim ond lliw'r gwir arny nhw. Dôdd yr hen ddynon ddim wedi meddwl yriod fod stiwdents mor ddoniol.

Ap M.: Dyna hi! ôn i'n meddwl ma pethe felna fydde gyda chi i adrodd, y sèt. Ma'r chware ych ch'n neyd â phregethe'ch gilydd yn gnevd mwy o ddrwg chi nag ych chi'n feddwl. A ma'r sport i ni'n neyd yn y trêns wrth roi hanes y Sul, lle clywo pob short o ddynon, ac wrth dynnu pregethwyr da i lawr, yn gwneyd mwy o ddrwg o lwer nag itha fês yn y Cross Inn, alla 'i weyd tho chi. Boys, ma'n rhaid i ni fod yn fwy gofalus.

D. G. G.: O! 'r sant ag e! Beth yw cymint ag i ti wedi glywed? Beth se ti gyda ni'n cysgu? Weda 'i ddim o'r cwbl tho ti, rhag ofon i fi shoco bachan bach mor sanctaidd. Ond mi weda 'i tho ti na cheson ni ddim cymint o rali yriôd o'r blân. Ac ar y bore, dyma'r hen fenyw yn dod làn i gnoco, a dyma Wil yn nido lawr, fel ôdd e, i'r drws; a dyma'r hen fenyw yn câl ofon, ac yn nido 'n ol, ac i lawr dros y stire; a se hi ddim ond câl ei Eadd, fe fydde'n ddigon am i bywyd hi. A wedi i ni ymolch, dyma ni 'n gadel y dwr yn y basin, ac yn dodi 'r jwg yn i genol e! Fe fydd yna le gyda'r hen fenyw pan wêl hi bopeth netho 'n ni!

Ap M.: Wel, boys, boys! Fanna i chi to? I chi ddim yn dvall y'ch dyledswydde i gymdeithas yn well nâ yna yto? Dyna drueni na fydde'n ni'n câl dysgu'r pethe bach mwya pwysig i ni ar y start. Pan weles i napcins, y tro cynta, ôn i ddim yn gwbod yn y byd beth ôn nhw. Ou i 'n meddwl ma dols ôn nhw. A dyna debyg i ddynon wedi câl 'u codi dan stwc yw'r rhan fwya ohonon ni pan y'n ni 'n mynd ar hyd dai dynon. Fe fydde cwpwl o lesyns ar y ffordd i fita bwyd, neu ar y ffordd i fihavio mewn tai dierth, yn llwer mwy o werth i ni nâ chant o lesyns miwn *Greek*.

W. P.: Gwell i ti, Ap, starto class i ni, te.

Ap M.: Cymer di 'e fel mynni di, gei di weld faint o wir sy ynddo fe, mas law.

N. F.: Gwedwch chi beth fynnoch chi, boys, ma 'n rhaid i fi mynd mlân â'ngwaith.

D. G. G.: Cera ona, Ffagwr: paid a bod yn gymint o hen gonin. Paid a lladd dy hunan cyn pryd. Dewch, boys, beth se 'n ni 'n câl cân. "Ni bydd Euclid" ynte.

[*Dai Gwitho'n Gynnar yn canu, a'r lleill yn uno, âg eithrio Ned Ffaqwr, yr hwn a gamdrinir gan y lleill pan yn ceisio gweithio.*

"Ni bydd Euclid yn y nefoedd,
Ni bydd Groeg yn Nhy ein Tad;
Ni ddaw Lladin nac Algebra
Byth o fewn i'r Ganan wlad.
O! na wawriai, &c.,
Bore llosgi'r rhain i gyd."

N. F.: Wyt ti wedi gneyd dy waith erbyn fory, Dai?

D. G. G.: O, odw i! Mi gnês i e, bore heddy, ar ol dod 'n ol, i gâl e o'r ffordd.

N. F.: O, wy' i 'n gweld! Gwitho 'n gynnar wyt ti o hyd. Fe fues yn yr ysgol y bore ma. Wy yn mynd, bob bore dydd Llun, achos wy i 'n meddwl ma miwn ysgrifennu Cymrâg wy 'i fwya ar ol; a wy i bron credu, wrth gâl pip dros rai o'ch papyre chithe, ma dyna sy fwya ar ol gan bedwar o bob pump o chithe hefyd.

D. G. G.: Pam na wedet ti bump o bob pedwar, gan dy fod ti mor wybodus yn y'n cylch ni?

N. F.: Wel, mi weda tho ti, ôn i bron gweyd pump o bob pump: achos wy i 'n gwbod nag ôs dim naw o bob deg o 'n pregethwyr ni, ar ol bod trwy 'r coleg, yn

(delwedd 4514) (tudalen 61)

gallu ala gair i'r Waag yn Gymrâg, a ma nhw 'n dysgu *lot* o rywbeth yn y coleg hefyd, medde'n nhw!

D. G. G: Pwy ots am allu scrifenu Cymrâg, os galli di i chanu ddi? I ti 'n gwbod fod deg gair o *Latin* yn ffortiwn i ddoctor, a mae 'n llawer mwy o arwydd dy fod ti 'n scoler dy fod ti 'n gallu dodi ambell i air o *Greek* miwn yn dy bregeth nâ dy fod ti 'n gallu dodi Cymrâg pert at i gilydd.

N. F.: Wel, dyna ddigon ar beth felna nawr. I ti, Dai, wedi gneyd dy waith; a dyma ti 'n dod yma i'n stopo i pan wy i 'n câl siawns i ddechre ryw dipyn. Bachan, ble ma dy gydwybod di? A tithe, Wil, cer gatre i neyd dy waith cyn tri o'r gloch y bore, yn lle dod i adrodd dy dries ar hyd y lle, fel hyn. A pheth arall, pwy sy 'n mynd i witho ma ar ol i chi fod yn llanw'r rŵm â mwg dybaco, fel hyn? Wy am ddodi notis làn yma: "No smoking allowed. Fifteen minutes here for good-for-nothings." Ma'n bryd i ni ddiwygio os i ni am neyd rhywbeth, *boys*.

H. G. D.: Ap, odi hwn fel hyn yn fynych? Cofia di, Ffagwr, ma peth ofnadwy yw bod yn *Greek-mad*. A ma'n rhaid i ti gofio hefyd mai nid ar ddysgu *Greek* y bydd byw stiwdent: ma'n rhaid i ti ddysgu byw gyda dynon. Ap, 'rhen Fardd, shwd ma'r awen?

Ap M.: Wedi rhewi, fachan.

H. G. D.: On i'n meddwl dy fod ti'n mynd i gâl cader am gân o glod i ryw hen lidir neu gilydd, ddiwedd y flwyddyn ma.

Ap M.: Wy i wedi danto ta. Dwy i ddim yr un enwad â'r beirniad.

H. G. D.: Twt, myn "help llaw" rhywun.

Ap M.: Ie, se'n i'n câl "help llaw" rhywun ma'i dro fe bron dod, fe fydde shiawns 'da fi. Heb hynny, ma arna'i ofon bydd gen i fwy o "wallgofrwydd" nâ barddoniaeth.

H. G. D.: Ma llaw arall, yn wir, yn dofi syniadau gwylltion. Tria, a thria gâl bardd cryf âg ysgrifen dda gyda fe. Falle galle ti gâl i help e hefyd i berffeithio tipyn.

Ap M.: Na, wy i'n credu 'rarhosa i nes bydda'i mas o'r coleg. Falle, ar ol i fi gâl y'n ordeinio ca'i ddod i faes cymanfa i bregethu gyda'r beirniad.

H. G. D.: Twt, paid aros heb gader gymint a hynny. Os 'da ti ddim cyfell yn mynd i faes cymanfa 'nawr, nen gyfell i'r cyfell, ne rywbeth. I ti ddim gwell o fynd i Steddfod heb wbod pwy sy 'n câl y gader fish ymlân o lia.

Ap M.: Na, dwy i ddim cnd stiwdent bach, a dos da fi ddim cyfell pwysig i gâl yto. A pheth arall, dwy i ddim yn gwbod i sicrwydd beth i weyd am yr hen scoler sy gen i yn yr eisteddfod yma.

W. P.: O, mi ro i boints i ti, Ap. Clywest ti ddim o'r stori am Charles, Penallte?

Ap M.: Naddo i 'n wir. Beth oedd am dano fe, bachan?

W. P.: Wel, 'rôdd steddfod gyda'r Metl odistiaid yn rhywle yn Shir Fynwe; a dyma'r pwyllgor yn mynd at hen scweiar ôdd yn y cylch (nid cylch yr Orsedd, wrth gwrs—ond yn y gymdogeth), ac yn gofyn os dele fe i lywyddu'r steddfod. A dyma Charles, Penallte, yn gweyd dele fe: "a mi ro i ddwy gini o wobor i chi," medde fe, "os ca i ddewis testyn, amodau, a beirniad." Hynny fu. Y testyn ddewisodd e ôdd, "Charles, Penallte: Cân o Glod;" yr amodau odd "nag ôdd dim da na dim drwg yn câl 'n gweyd am dano fe;" a'r beirniad, "Ialwyn." A dyma'r steddfod yn dod, ac Ialwyn yn dod mlân i ddarllen 'i feirniadaeth. "Ma wyth wedi eu derbyn," medde fe; "ond y mae saith wedi methu cydymffurfio â'r amodau, ac oherwydd hynny allan o'r gystadleuaeth. Un sydd wedi dàl at yr amodau, ac y mae hwn yn llwyr deilyngu'r wobr." A dyma alw am y buddugwr; ac wedi iddo ddod i'r staj, fe welwyd taw hen grydd y pentre ôdd y bardd buddugol! Rôdd pawb wedi synnu, a dyma alw am y gân. "Alreit," medde 'rhen grydd; "ac os ych chi am, mi cana hi i chi nawr. Ar fesur 'Harlech' ma hi." A dyma fe'n 'i chanu ddi bant.

D. G. G.: Mas a hi te, Wil, fel 'r hen grydd. Ry'n ni gyd yn gwbod dy fod ti'n lico clywed dy laish.

W. P.: Na, 'n wir; wy i, 'r un peth a'r cantwyr mawr i gyd, âg anwyd arna' i.

D. G. G.: Twt, y baw! Starta di ddi, a mi joinwn ni yn y diwn, ta beth. Wy i 'n gwbod tiwn "Harlech" pan o 'n i 'n ware whistl din.

W. P.: Mi tria hi ddi, te, a fe allwch chithe joinio yn y gire gyda'r diwn, achos dim ond doi air sydd'n dysgu. Ond cofiwch chi bido troi i ganu "Ar hyd y nos." Dyma ma pawb sy'n canu heb nôts yn neyd, medde Dr. Jones.

H. G. D.: O 'rhen Jones! Fe fues i 'n meddwl dechre dysgu canu gydag e. A dyma fi'n mynd ato fe i ofyn am i *derma* e. "Gini'r cwarter cynta; haner gini'r ail gwarter." "O," meddwn i, "ddechreua i 'r ail gwarter;" a ddechreuais i byth. Ond dere, Wil, i ni gâl cân y crydd ar fesur "Harlech."

W. P. [*I'n canu'r ddau air drosodd hyd derfyn y dôn, a'r lleill yn uno*]:
"Charles, Penallte, Charles, Penallte,
Charles, Penallte, Charles, Penallte, &c."

Os i tithe. Ap, am ennill ar y gân o g'od yna, gna dithe rywbeth tebyg.

Ap M.: Ma arna i ofon mai dim ond Ialwyn fydde'n debyg o roi'r wobor am gi'n fel honna. Os na ganmoli di'r cythrild gwitha mas, y dyddie hyn, i ti ddim gwell o gynnyg. A ma cymint o ochor, bachan. Rôdd hyd yn oed Herber yn gweyd i fod e'n hoff o "ddangos 'i ochor;" "ac ochor dda sy gen i hefyd," medde fe, gan roi i ddwy law arni.

D. G. G.: Twt, boys, wela i ddim argôl caiff Ap gader eisteddfod am dipyn bach. Nes penelin na garddwrn, a phwy sens sy miwn rhoi bars'r plant i'r cwn. Ya wir i chi, wy i 'n credu y gallwn ni, sy'n nabod Ap ore, roi mwy anrhydedd arno fe yma

(delwedd 4515) (tudalen 62)

wrth roi cader iddo fe nag a all parsel o anwybodusion partiol fel sydd yn yr eisted-lfodau ma. Darllen y feirniadaeth, Myrddin.

H. G. D.: Wel, rhag i mi eich blino â meithder, oblegid y mae cystadleuaethau pwysig a dyddorol y cerddorion yn galw am gael dod ymlaen, ni wnaf ond darllen yr ychydig frawddegau diweddol yn y feirniadaeth. Caiff y beirdd sydd wedi bod yn hir ymdrafferthu i gael eu cyfansoddiadau yn deilwng o'r gystadleuaeth bwysig hon gyfle eto i ddarllen y feirniadaeth gyflawn yng nghyfansoddiadau'r Eisteddfod, y rhai yn sier a gyhoeddir cyn y cyll y pwyllgor hawl arnynt,—o leiaf, cyhoeddir dwsin uwchlaw y nifer gofynnol i'r tanysgrifwyr gael copi! O'r tri-ar-hugain, y tri sy'n rhagori ar y testyn clodwiw hwn ydynt "Gelwch fi Mara," "Con Dolore," a "Dan yr Helyg." Mae y cyfansoddiadau hyn, fel y sylwyd eisces [wrth gwrs, mae hynny yn y rhan flaenaf o'r feirniadaeth] yn adlewyrchu clod bythol ar y pwyllgor [foneddigion, cofiwch am danaf y tlwyddyn nesaf eto], ac ar yr ymgeiswyr. Yn wir, gwobrwywyd eu salach, iawer tro, yn yr Eisteddfod Genedlaetnol [ta ddim ond pryd cês i'r gader]. Mae y dorch yn dyn rhwng "Con Dolore" a "Dan yr Helyg," ond oherwydd rhesymau neilltuol, rhaid i'r wobr a'r gadair fynd, y tro hwn, i "Gelwch fi Mara," ar air cyfeillgarwch a chydwybod *india rubber*.

W. P. (*yn gwaeddi*): A yw "Gelwch fi Mara" yn bresennol? Os yw, safed ar 'i drâd, a daw dau brif-fardd i'w hercyd i'r llwyfan.

[*Ap Mwydyn, wedi diane yn ddistaw o'r llwyfan, yn sefyll i fyny yn y dorf.*

Llais o'r Dorf: Ishte lawr, ishte lawr! Beth ma'r hen ioncyn coch bach yna yn sefyll làn? Ishte lawr, bachan bach, i ni gâl gweld pwy yw e.

W. P.: O, dacw fe! Ned Myrddin a Dewi Llwchwr i'w hercyd i'r llwyfan,

[*Hurri Gneyd Dim, a Dai Gwitho'n Gynnar, yn mynd i gyrchu'r bardd.*

Yn awr, yn absenoldeb y *band* i ganu "*See, the Conquering Hero Comes*" ni gawn uno i ganu yr hen alaw genedlgarol, "Y Sospan Fach;" yr ydych i gyd yn cofio'r geiriau.

[*Galw "A oes heddwch?" deirgwaith gan yr Archdderwydd, Wil Pregethwr.*

W. P.: Yn awr, fe geir "Cân y Cadeirio" gan Llinos Nant Melin. Mae hi wedi rhoi heibio ganu "Myfi sy'n magu'r baban," er mawr ofid inni, ar achlysuron mor darawiadol a'r presennol. Ceisiodd, meddai hi, gael gafael ar un o "*Italian Songs*" Watcyn Wyn, ond yr oeddynt wedi eu gwerthu allan yn siop Novello Ewer yn Llunden; a bellach 'does ganddi ddim i'w wneyd ond canu'r unawd swynol a adnabyddir wrth yr enw "Y Pren Pêr." Byddwch cystal ag uno yn y cydgan.

Llinos Nant Melin:

m,	l,	l,	t,	d	l,	t,		
Y	cyn -	taf	dydd	o'r	gwyl -	ie		
t,	d	d	r	r	m	‖		
Fy	ughar-	iad	roes	i	mi			
Cyd.								
m	m	m	r	d	t,	‖		
Y	par -	ot	a'r	pren	pêr.			

W. P.: Yn awr, fe geir anerchiad gan y beirdd. Wy i, fel ——, er mwyn bod yn deilwng o'r amgylchiad, wedi cael prifardd i neyd englyn i mi: —

Dyma'r bardd hardd ei awen—a godwyd
I gader Ceridwen;
O, mae e'n berchen aden—eill hedeg
I ben stac gwaith Pantyffynnon a 'n ol,
miwn eiliad a hanner.

[*Myrddin yn nesa.*

H. G. D.:

Dyma'r bardd am ganu clod,
Dyma'r selonwr gore 'r iôd;
Dim ond coron rows e i'r beirniad,
A dyma'r cewri dan 'i drôd.

[*Meudwy Pont y Bettws.*

N. F.:

Hwre, clywch, clywch!
Dyma gawr fel ceiliog gwair
Yn codi i ben cadair,
A dim yn uwch.

[*Dewi Llwchwr yn ola.*

D. G. G.:

Dyma brif fardd yr oesoedd—a godir
I gadair y nefoedd;
Fe gurodd hwn rai cannoedd—a ma *lot*
o honynw yn treio
Canu iddo fe'n awr ar y staj àg asgwrn
yn 'u gwddwg nhw.

Diwedd:—"Hen Wlad fy Nhadau."

Hen Fyfyriwr.

Y SISWRN (Y GWELLEIFYN).

Rhad a pharod offeryn—i dori,
Yw'r durol Welleifyn:
Gwneyd ei waith, o'i wasgu'n dyn,
Yw arfer y llym erfyn.

Llan Gynhafal. Hafal.

NADOLIG CRIST.

Dylem edmygu'r Nadolig,—wyl lawn
O loniant brwdfrydig:
O rad y Nef rhoed i ni
Geidwad—Duw bendigedig!

Bardd yn Fos Cymru

Y TRYDAN.

(*Buddugol yn Mettws y Coed*, 1899.)

Dydi, deryll dad y daran,—mawr rym
Chwim rawd ydwyt, Drydan,
Ac elf dig hylif o dân,—
Brwd einioes,—ysbryd Anian.

Myfyrian.

ANERCHIAD MEWN EISTEDDFOD.

Gwlad y gân, goludog yw—mewn dynion,
Mewn doniau uchelryw:
Profa'n gwledd, yma, heddyw,
Gymru fach yn Gymru fyw.

Cadwyn

Ar ffurf testun electronaidd:
www.kimkat.org/amryw/1_testunau/sion_prys_082_ap_mwydyn_1900_y-gyfeirddalen_3591k.htm

Y tudalen hwn:
www. []kimkat.org/amryw/1_testunau/sion_prys_082_ap_mwydyn_1900_FDG-PDF_3591k.pdf